

## Cynllunio Cyfarfodydd Diogelu – Llais y Dinesydd



Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn nodi egwyddorion craidd: Llais a rheolaeth – rhoi'r unigolyn a'u hanghenion wrth galon eu gofal, a rhoi llais iddynt wrth reoli cyrraedd canlyniadau sy'n eu helpu i gyflawni llesiant.

Yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, dylai ymarferwyr nodi bod:

- Hawliau'r unigolyn fod yn hollbwysig i'r dull o weithio;
- Eu buddion gorau yn hollbwysig;
- Cyn belled ag sydd yn rhesymol ymarferol, sicrhau a rhoi sylw i farn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn.

Dyma ganllaw cyflym i ymarferwyr, wrth gynllunio cyfarfodydd diogelu, i'w helpu i wneud profiad y dinesydd sy'n mynd i'r cyfarfodydd hynny mor gefnogol â phosib.

- Meddwl am sut maent yn teimlo.
- Meddwl am sut y byddech yn teimlo yn eu hesgidiau.
- Os oes yna gyfarfod amdanynt nad ydyn nhw'n cael mynd iddo – dweud wrthyn nhw pam

- Cofiwch fod pobl yn gwneud penderfyniadau am eu bywyd.
- Ychydig ddyddiau cyn y cyfarfod, ffoniwch nhw neu anfonwch lythyr atynt i ddweud beth fydd yn digwydd.
- Cyflwynwch bawb sydd yn yr ystafell - dywedwch wrth yr unigolyn beth yw teitl eich swydd, beth rydych yn ei wneud a pham eich bod yma.
- Tawelwch eu meddwl, cynigwch baned pan fo'n bosib.

- Oes oes arnynt angen rhywun gyda nhw y gallant ei ymddiried ynddyn nhw i'w cefnogi - sicrhewch fod hyn yn digwydd
- Caniatewch seibiant – sylwch pan fydd yr unigolyn wedi cael digon ac yn fodlon cytuno i unrhyw beth am eu bod wedi cau i lawr.
- Gofynnwch i'r unigolyn beth maent ei eisiau o'r cyfarfod – peidiwch â chymryd yn ganiataol eich bod yn gwybod.

- Dangoswch ddiddordeb yn yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud – gofynnwch am eu barn.
- Meddylwch am sut maent yn teimlo ar y diwrnod hwnnw - efallai bod hyn yn anoddach iddynt na'r disgwyl.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru:

<https://www.bwrddiogelugogleddcymru.cymru/>